

## RHAGAIR

Gan John Booth DL, Cadeirydd

Ers 45 mlynedd, gweledigaeth Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru fu cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu anfantais a thrallod, er mwyn iddynt allu goresgyn unrhyw heriau sy'n dod i'w rhan ac, yn y pen draw, ddod yn aelodau annibynnol o gymdeithas. Mae ei weledigaeth – a'n gweledigaeth ni – yn cydnabod potensial aruthrol pobl ifanc o gael y gefnogaeth a'r arweiniad iawn.

Mae pandemig y coronafeirws wedi esgor ar heriau ychwanegol a chymhleth i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys tarfu ar addysg a hyfforddiant, yn ogystal ag effaith cadw pellter cymdeithasol ar fywyd teuluol a chyfeillgarwch yn ystod cam allweddol yn eu datblygiad. Ar ben hyn, mae diweithdra wedi cael effaith anghymesur o galed arnynt wrth i sectorau, fel lletygarwch ac adwerthu, gael eu taro'n galed gan y gyfres o gyfnodau clo.

Yn wyneb yr heriau digynsail hyn, mae ein cymuned o gydweithwyr, partneriaid, cefnogwyr a gwirfoddolwyr wedi bod yn fwy gwydn ac wedi dal ati i fod yn fwy ymroddedig nag erioed i gysylltu pobl ifanc â'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn gwaith, addysg neu hunangyflogaeth.

Rwyf wedi cefnogi'r Prince's Trust ers blynyddoedd lawer ac rwy'n cael fy ysbrydoli a'm cyffwrdd yn gyson gan bobl ifanc sydd, gyda'n help ni, wedi llwyddo i drawsnewid eu bywydau. Mae eu straeon yn ein cymell i barhau â chenhadaeth hanfodol y Prince's Trust wrth i ni ailgydio mewn gwaith a bywyd cymdeithasol.

Drwy ein gwaith gyda chymunedau, ysgolion, colegau a chyflogwyr, gallwn alluogi a grymuso pobl ifanc i gyflawni eu potensial ym myd addysg, i ddod o hyd i'w swydd gyntaf, i fynd yn ôl i weithio neu i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae meithrin sgiliau, hyder a gwytnwch pobl ifanc yn dangos ein bod yn credu ynddynt, ond mae hefyd yn ymrwymiad i ni'n hunain ac i ddyfodol ein cymdeithas wrth i ni adfer ar ôl y cyfnod anarferol o heriol hwn.

Er mwyn helpu i arfogi mwy o bobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi heddiw – a swyddi yfory – mae'r Prince's Trust wedi ymrwmo i gydweithio, ac rydym yn rhan o ymdrech ryngwladol i helpu pobl ifanc i ddysgu a chynllunio ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r awydd i barchu a gofalu am yr amgylchedd yn y cyfleoedd gwaith a gawn, er enghraifft, yn un gwirioneddol fyd-eang, ac rwy'n falch o'r ffordd y mae Grŵp y Prince's Trust wedi gweithio i roi blaenoriaeth i swyddi cynaliadwy yn yr economi werdd. Mae'n faes gwaith a fydd yn elwa'n aruthrol o ddefnyddio ymroddiad pobl ifanc i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu ein planed, materion y mae ein Sylfaenydd wedi dangos arweiniad mor gryf yn eu cylch.



# START SOMETHING

Gallwch ddarllen mwy am Prince's Trust International a'n chwaer elusennau yn Awstralia, Aotearoa Seland Newydd, Canada ac UDA gan Brif Weithredwr y Grŵp, Y Fonesig Martina Milburn, yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb sydd wedi cefnogi ein gwaith yn ystod y cyfnod ansicr hwn – mae wedi cael ei werthfawrogi'n fwy nag erioed.

Diolch o galon hefyd i fy nghyd-ymddiriedolwyr ac i'n tîm anhygoel o gydweithwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid cyflenwi sy'n gweithio'n ddfilno gyda'i gilydd i roi eu cefnogaeth a'u harweiniad i bobl ifanc ledled y DU.

Ar ben hynny, ar ran cymuned gyfan y Prince's Trust, hoffem ddiolch i'w Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, am ei angerdd a'i ymroddiad diddiwedd i bobl ifanc yma yn y DU, ac ym mhedwar ban byd.

**John Booth DL**, Cadeirydd, The Prince's Trust

## CROESO

Gan Jonathan Townsend, Prif Weithredwr y DU

Mewn cyfnodau o galedi ac ansicrwydd economaidd, pobl ifanc yn aml sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Mae'r flwyddyn ddiwethaf nid yn unig wedi tarfu ar addysg a chyflogaeth pobl ifanc, ond mae'r meysydd hyn yn dal i fod yn ansefydlog ac yn llawn rhwystrau ychwanegol, a hynny ar ben cyfnod sydd eisoes anodd iawn ym mywyd unrhyw berson ifanc.

Roedd pobl ifanc yn cynrychioli dros hanner y gostyngiad mewn cyflogaeth yn gyson wrth i'r pandemig effeithio ar y farchnad swyddi. Mae'r effaith niweidiol ar les meddyliol pobl ifanc mewn perygl o greu cylch o iechyd meddwl gwael a diweithdra ac fe wyddom y gall hyn achosi ton ar don o effeithiau ymhell i'w dyfodol.

Rydym hefyd wedi gweld yr anghydraddoldebau rhwng pobl ifanc ledled y wlad yn ehangu, gyda'r rhai a oedd eisoes yn wynebu anfantais yn cael eu gwthio ymhellach oddi wrth gymorth.

Yn y Prince's Trust, mae'n amser gweithio'n galetach nag erioed i sicrhau bod y bobl ifanc mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu dyfodol, yn ogystal â'r hyder a'r hunan-gred i gyflawni eu nodau.

Nid ydym yn fodlon gadael i'r pandemig hwn effeithio ar genhedlaeth o bobl ifanc rydyn ni'n gwybod y gallent – gyda'r gefnogaeth, y sgiliau a'r hyder priodol – fynd ymlaen i gyflawni pethau gwyh; nid dim ond iddyn nhw eu hunain ond i'w teuluoedd ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r gwaith hwn yn ymdrech enfawr ar y cyd, nawr ac wrth symud ymlaen. Rydym yn ddigon ffodus i gael cefnogaeth a haelioni anhygoel unigolion sy'n rhoi rhoddion hanfodol i'n rhaglenni ac yn ffurfio byddin o wirfoddolwyr sy'n helpu pobl ifanc i gael swyddi, addysg a hyfforddiant.



# START SOMETHING

Rydym yn hynod ddiolchgar ac yn falch o'r partneriaethau rydym wedi'u datblygu a'u meithrin, sydd nid yn unig yn helpu i ariannu ein gwaith ond hefyd yn darparu lleoliadau gwaith, yn helpu pobl ifanc i uwchsgilio ac ailhyfforddi, ac yn meithrin uchelgais a gwytnwch.

Mae ein partneriaeth gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr yn parhau i greu llif o dalent amrywiol a medrus i swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Eleni, mae'n bleser gennym weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr mewn amrywiaeth o sectorau i gyflawni cynllun Kickstart y Llywodraeth – gan ddarparu sgiliau a phrofiad hanfodol ar gyfer gwaith i bobl ifanc sy'n ddi-waith.

Diolch i'n holl gefnogwyr, rydyn ni wedi gallu helpu dros 46,000 o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon o'r pandemig, gan ddarparu gwasanaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl.

Fodd bynnag, mae hwn yn gyfnod eithriadol o heriol o hyd – i bobl ifanc ac i'r Prince's Trust. Ni allwn anwybyddu'r tirlun ariannol y mae'r pandemig wedi'i adael ar ei ôl, sydd wedi creu amgylchedd codi arian ansicr iawn.

Bydd y Prince's Trust yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth, cyflogwyr a chymunedau i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'r cylch o ddiweithdra ac iechyd meddwl gwael ymysg pobl ifanc.

Wrth i ni edrych tua'r flwyddyn sydd i ddod, rydyn ni'n gwybod bod taith sylweddol o adferiad o'n blaenau. Bydd y Prince's Trust yn sefyll ochr yn ochr â phobl ifanc ar bob cam o'r ffordd, gan ddarparu cefnogaeth ac arweiniad, a'u galluogi i edrych ymlaen at ddyfodol disglair iawn.

**Jonathan Townsend**, Prif Weithredwr y DU, The Prince's Trust

## CYFLWYNIAD

Gan Y Fonesig Martina Milburn DCVO CBE, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp y Prince's Trust

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi bod angen ein help ar bobl ifanc yn fwy nag erioed. Diolch i ymrwymiad ein cydweithwyr, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr, mae'r Prince's Trust wedi parhau i gefnogi miloedd o bobl ifanc drwy'r pandemig byd-eang.

Mae Grŵp y Prince's Trust yn rhwydwaith byd-eang o elusennau a sefydlwyd gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Rydyn ni'n credu bod pob person ifanc yn haeddu'r cyfle i lwyddo. Ein cenhadaeth yw trawsnewid bywydau a chreu cymunedau cynaliadwy ledled y byd, gan ganolbwyntio'n benodol ar helpu pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth a menter.

Rydym hefyd yn cefnogi cyn-filwyr yn Awstralia a Chanada, gan eu helpu i gychwyn eu busnesau eu hunain ar ôl gadael y lluoedd arfog.



# START SOMETHING

Mae Grŵp Prince's Trust o elusennau yn cynnwys gwaith y Prince's Trust yn y DU ochr yn ochr â Prince's Trust International, Prince's Trust Australia, Prince's Trust Aorearoa New Zealand, Prince's Trust Canada a Prince's Trust USA.

Gyda'n gilydd yn ystod 2020/21, fe wnaethom gefnogi 60,146 o bobl ifanc, gan gynnwys dros 46,000 yn y DU. Fe wnaethom hefyd helpu 663 o gyn-filwyr i sefydlu busnes a buddsoddi mewn adeiladu cymunedau cynaliadwy. Rydym bellach yn weithredol mewn 18 o wledydd: Awstralia, Barbados, Canada, Ghana, Gwlad Groeg, India, Jamaica, Gwlad yr Iorddonen, Kenya, Malaysia, Malta, Seland Newydd, Pacistan, Rwanda, St Lucia, Trinidad a Tobago, y DU ac UDA.

Mae ein hymgysylltiad â phobl ifanc ar-lein wedi fy nghalonogi'n fawr, gan ei fod wedi'u helpu i gadw mewn cysylltiad, i ddysgu ac i ennill cyflog yn ystod y cyfyngiadau symud byd-eang. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom symud llawer o'n darpariaeth ar-lein drwy arloesiadau digidol newydd, o Birmingham i Barbados.

Mae pandemig byd-eang y coronafeirws yn cael goblygiadau difrifol ar gyfleoedd bywyd cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc a bydd yn cael yr effaith fwyaf ar y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae wedi gwneud yr angen i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd gwaith y dyfodol yn bwysicach fyth, ac mae wedi cyflymu'r galw am sgiliau digidol. Yn y cyfamser, mae twf cyfleoedd cyflogaeth yn yr economi werdd a gofal iechyd yn cynyddu'n gyflym.

Rydym yn benderfynol o barhau i gefnogi pobl ifanc drwy'r argyfwng hwn a thu hwnt, drwy eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf ar gyfer swyddi yfory.

Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i Ei Uchelder yr Aga Khan, ein Noddwr Sefydol Byd-eang; ac i HSBC, ein Partner Corfforaethol Sefydol Byd-eang. Hoffwn ddiolch hefyd i'n partneriaid cyflenwi gwerthfawr iawn am eu cyfraniad hanfodol, ac i'n cydweithwyr a'n gwirfoddolwyr ymroddedig ein hunain sydd, gyda'i gilydd, yn gweithio'n ddiflino i gefnogi pobl ledled y byd.

Yn bwysicaf oll, hoffwn ddiolch o galon i Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru am ei arweinyddiaeth weledigaethol a'i ysbrydoliaeth.

**Y Fonesig Martina Milburn DCVO CBE**, Prif Weithredwr y Grŵp, The Prince's Trust